# MENTRO

## Mehefin – Awst 2018

mentro venture

CEFNOGI MENTRAU AR Y CYD
SUPPORTING JOINT VENTURES

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

Mae Mentro yn fenter sydd wedi ei lunio i helpu paru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n chwilio am gyfle i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am ffordd i mewn i ffermio. Mae'n arwain pobl ar y ddwy ochr drwy'r camau allweddol sy'n angenrheidiol i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig o hyfforddiant, mentora a chefnogaeth busnes yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i'r rheini sy'n cymryd rhan i'w cynorthwyo i gyflawni eu nod.

Gall gamau allweddol y **broses Mentro** gynnwys...




### Sgôr RAG

Coch: Dan y targed · Oren: Bron â chyrraedd y targed · Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

| Gwyrdd | Prosiect a digwyddiadau ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed |
|---|---|

**396** DATGANIAD O DDIDDORDEB WEDI CAEL EU CYFLWYNO ERS DECHRAU'R RHAGLEN MENTRO

**318** O GYFRANOGWYR GWEITHREDOL


**33,470** ERW O DIR AR GAEL

**122** O GEISWYR YN CHWILIO AM GYFLE

**46** O DDARPARWYR YN CYNNIG CYFLE

**104** WEDI CANFOD PARTNER


### Cymhareb Ceiswyr a Darparwyr (heb gynnwys y rheiny sydd wedi canfod partner)





### Cyfleoedd Presennol

| Lleoliad | Maint y Daliad (hectar) | Sector | Rhif Cyfeirnod Mentro |
|---|---|---|---|
| Llangadog | 38 | Defaid | 47 |
| Llanelli | 13 | Defaid | 85 |
| Hwlffordd | 2 | Garddwriaeth a Dofednod ar raddfa fach | 87 |
| Caerfyrddin | 40 | Defaid | 105 |
| Llandysul | 92 | Bîff a Defaid (ond dim gwartheg ar hyn o bryd) | 126 |
| Brynbuga | 48 | Bîff a Defaid | 151 |
| Llandysul | 175 | Llaeth | 157 |
| Y Gelli Gandryll | 60 | Bîff a Defaid | 169 |
| Abergele | 100 | Bîff a Defaid | 189 |
| Y Fenni | 77 | Bîff a Defaid | 215 |
| Llanfyllin | 29 | Coedwigaeth | 220 |
| Tyˆ Ddewi | 1.2 | Garddwriaeth | 239 |
| Penrhyn Gŵyr | 80 | Bîff a Defaid | 242 |
| Caerfyrddin | 36 | Bîff a Defaid | 244 |
| Wrecsam | 202 | Llaeth | 276 |
| Llanelwy | 85 | Defaid | 290 |
| Castell Newydd Emlyn | 29 | Bîff a Defaid (ond dim da byw ar hyn o bryd) | 324 |
| Bae Colwyn | 47 | Llaeth | 340 |
| Aberteifi | 78 | Defaid | 345 |
| Treffynnon, Fflint | 115 | Llaeth | 396 |


### Statws




### Sectorau



Ceiswyr
Darparwyr
Parau



Mae **22 partneriaeth** ar hyn o bryd yn derbyn gwasanaethau cynghori ac mae **10 menter ar y cyd newydd** wedi cael eu sefydlu.

## Diweddariad astudiaeth achos



Yn y dangosfwrdd diwethaf, fe rannom stori Egan Carlisle. Roedd Mr Carlise, a oedd wedi gwerthu ei fuches laeth yn dilyn marwolaeth ei fab yn 2017, yn chwilio am ffermwr ifanc arall i redeg ei fferm 160 erw. Yn awyddus i gymryd cam yn ôl, roedd wedi troi at y rhaglen Mentro er mwyn dod o hyd i bartner busnes newydd.

Yn dilyn ymgyrch gyhoeddusrwydd eang, lluniwyd rhestr fer a chafodd 4 ymgeisydd posib eu gwahodd i ddiwrnod agored ar y fferm ar y 16eg o Orffennaf. Mae'r ymgeisydd llwyddiannus, yngh d â Mr Carlise, bellach yn cael eu mentora ac yn derbyn cyngor busnes er mwyn ffurfio perthynas weithio wydn a llunio cynllun busnes gyda'r nod o ddechrau godro ym mis Medi.

## Mentora

MAE **11** AELOD O MENTRO YN CAEL EU MENTOR AR HYN O BRYD.

Gall **8** mentor gynnig cefnogaeth gyda mentrau ar y cyd:

### Eurig Jenkins — Ceredigion



*"Dwi'n credu bod pawb yn haeddu cyfle i lwyddo, ond does dim o'i le mewn cael ychydig o help ar y ffordd."*

### John Booth — Sir y Fflint



*"Mae angen bod yn ddidwyll, ac mae angen i chi allu gwrando, dysgu ac ymateb yn hyderus."*

### Lilwen Joynson — Sir Benfro




*"Gwnewch gais am fentor i edrych yn fanwl ar eich amcanion a chael rhywun yna i gadw eich busnes ar y trywydd iawn."*

### Mark Davies — Sir Drefaldwyn



*"Gwnewch eich ymchwil... siaradwch, gwyliwch, darllenwch, gwrandawch a daliwch ati i ddysgu."*

### Meirion Jones — Sir Gâr



*"Mae cynllunio ar gyfer y dyfodol yn hanfodol, felly sicrhewch eich bod yn diogelu dyfodol y busnes teuluol trwy drafodaethau gonest gyda'ch teulu yngl^n â chynllunio olyniaeth."*

### Gwydion Jones — Conwy



*"Mae'n bwysig rhannu gwybodaeth gydag eraill i ddysgu ganddynt ac i weld yr hyn y maent yn ei wneud. Trwy siarad ag eraill, gallwch ddysgu pethau newydd a all fod yn fanteisiol ar gyfer eich busnes."*

### Rhys Williams — Llŷn ac Eryri



*"Byddwch yn barod i weithio'n galed, a pheidiwch â rhoi'r ffidil yn y to."*

### Richard Rogers — Ynys Môn



*"Byddwch yn agored i newid."*

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government